**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Canolfan Felin-fach ar ddydd Mawrth 25 Mehefin 2013**

**Yn bresennol**: y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd).

**Aelodau nad ydynt o'r ysgolion**: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Messrs. Eifion Evans a Gwyn Jones.

**Aelodau o'r ysgolion**:
Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd: Meinir Lewis ac Alwyn Ward (Penaethiaid), Lodwick Lloyd a Peter Wellington (Llywodraethwyr)

Cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd: Anna Williams (Pennaeth), Chris Evans a Derrick Jones (Llywodraethwyr).

**Swyddogion yn bresennol**: Chris Macey (AAGC– Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol), Kay Davies a Denfer Morgan (Gwasanaethau Democrataidd).

7.00 pm – 9.00 pm

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge a Messrs Stephen Cooper, Robert Jenkins a Steff Jenkins am iddynt fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu buddiannau personol**
Ni ddatgelwyd buddiannau personol.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2013 yn rhai cywir.

4 **Materion yn codi o'r Cofnodion**
Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion.

5 **Trawsnewid ffordd o weithio'r Cyngor a materion cyllidebol**
Bu i'r cyfarwyddwr amlinellu'r strwythur newydd a weithredwyd gan y Cyngor gan gynnwys creu pedwar Cyfarwyddwr Strategol a thri ar ddeg o benaethiaid gwasanaeth, gyda'r nod o sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

Esboniodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor y bydd y strwythur newydd yn fodd o sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau a amlinellwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol a fabwysiadwyd gan y Cyngor lle amlinellwyd ei nodau, amcanion a blaenoriaethau am y pedair mlynedd nesaf. Fodd bynnag bu i'r Cynghorydd ap Gwynn, atgoffa'r Fforwm y gweithredir y Strategaeth yma mewn cyfnod o

ddirwasgiad economaidd ac yn erbyn cefndir o ostyngiad difrifol mewn gwariant cyhoeddus. Roedd y Cyngor eisoes yn rhagweld y bydd yn rhaid clustnodi ryw £12.5m o arbedion dros y tair blynedd nesaf, cyn derbyn gwybodaeth ar effaith yr Adolygiad Gwariant newydd a gyhoeddir gan Ganghellor y Trysorlys y diwrnod wedyn. Dywedodd y bydd yn rhaid cymryd penderfyniadau anodd ac y bydd yn rhaid i'r gwasanaethau addysg rannu'r arbedion oedd angen eu clustnodi yng ngwariant y Cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw.

6 **Arian Fformiwla Ysgolion Cynradd ac Uwchradd 2013-14**

Ystyriwyd y papurau a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr arian a ddyrannwyd i ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Sir yn unol â'r fformiwla cyfredol.

Atgoffwyd y Fforwm o'r adolygiadau canlynol i'r fformiwla:

*Ysgolion Cynradd*

- Y trefniadau ariannu diwygiedig ar gyfer y clybiau brecwast fel y'i adroddwyd;
- Dirprwyo costau arlwyo i ysgolion. Dywedwyd fod pob ysgol yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyngor Sir;
- Darparu ar gyfer codiadau cyflog a diogelu cyflog ar gyfer Arfarnu Swyddi; a
- Darparu cynnydd o 1% mewn cyflogau

*Ysgolion Uwchradd*

- Y newid i drefniadau ariannu ôl-16 Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Addysg Arbennig;
- Darparu ar gyfer codiadau cyflog a diogelu cyflog ar gyfer Arfarnu Swyddi; a
- Darparu cynnydd o 1% mewn cyflogau

Dywedwyd hefyd taw dyma fydd y flwyddyn gyntaf i fformiwla arian newydd y sector uwchradd gael ei weithredu'n llawn– cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o dair blynedd.

Dywedwyd hefyd o ran gofyniad Llywodraeth Cymru y dylai o leiaf 85% o gyllideb blynyddol yr ysgol gael ei ddirprwyo iddynt, ac arhosir am esboniad pellach a oedd hyn yn cynnwys costau cludo; darperir cyngor pellach ar yr amser priodol.

Dywedwyd gan y Cyfarwyddwr hefyd yng nghyd-destun ariannu'r gwasanaeth addysg i'r dyfodol yng Ngheredigion o fewn yr adnoddau sydd ar gael, roedd y gymhareb disgybl – athro yng Ngheredigion ar gyfartaledd o 16:1, ac mi roedd hyn tipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 22:1; ac mi allai hyn fod yn un o'r ffactorau a ystyrir gan y Cyngor wrth osod cyllidebau ar gyfer y gwasanaeth addysg yn y dyfodol.

Datganwyd bod LlC hefyd yn cynnal adolygiad o'r fethodoleg ar gyfer ariannu addysg ôl-16 a thra disgwylir newyddion cadarnhaol o ran cydnabod y 'ffactor teneurwydd' a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ddwyieithog, roedd yr oedi i gael canllawiau manwl terfynol yn destun pryder.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

7 **Cronfeydd yr Ysgol ar Fawrth 2013**

Ystyriwyd y wybodaeth a ddarparwyd o ran y cronfeydd a gedwir gan ysgolion cynradd ac uwchradd unigol ar 31 Mawrth 2013.

Nodwyd fod y Gweinidog wedi mynegi na ddylid ystyried mwy na 5% o'r gyllideb gronfeydd wrth gefn fel lefel boddhaol ac ystyriwyd gofyn i'r ysgolion gyfiawnhau symiau a gedwir dros y ffigwr dan sylw, gan drosglwyddo'r balans i'r Cyngor mewn amgylchiadau penodol.

O ran ysgolion uwchradd bu i'r Cyfarwyddwr atgoffa'r Fforwm fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gael o fewn y Cyngor Sir ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol a bod un ysgol uwchradd eisoes wedi manteisio ar gefnogaeth o'r fath gyda chynllun tair blynedd mewn lle er mwyn mynd i'r afael â materion cynllunio ariannol a chyllidebol.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

8 **Perfformiad Ariannol yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol 2012-13**

Ystyriwyd y ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

Nodwyd fod gwariant yr Adran o fewn y gyllideb ond y bu symudiad rhwng gwasanaethau er mwyn cyflawni galwadau a oedd yn fwy na'r gyllideb gwreiddiol y bu'n rhaid i wasanaethau penodol eu cyflawni, megis canolfannau hamdden a darpariaeth addysg arbennig.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

9 **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG)**

Bu i'r Cyfarwyddwr esbonio'r trefniadau diweddaraf ar gyfer dosbarthu'r Grant Llywodraeth Leol yma, a wnaeth ddisodli'r grant GEST blaenorol, gan nodi am y tro cyntaf y bydd yn rhaid cyflwyno bid am y grant ar sail ranbarthol a bod swyddogion o'r chwech awdurdod yng nghanolbarth a de orllewin Cymru – a elwir bellach yn ERW – Addysg drwy Weithio Rhanbarthol – wedi cydlynu a chyflwyno bid o'r fath. Caiff yr arian a dderbynnir ei weinyddu gan Gyngor Sir Penfro ar ran y rhanbarth. Nodwyd ganddo hefyd fod y sail ar gyfer dyrannu arian grant i ysgolion wedi newid a'i fod bellach yn seiliedig ar yr hyn y caiff ysgolion eu categoreiddio gan y Cyngor a lefel y gefnogaeth a ddisgrifiwyd yn y ddogfen matrics a ddarparwyd i bob ysgol.

Nodwyd fod angen llai o adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a rhoddwyd mwy o bwyslais ar gefnogaeth cyfoedion a rhannu arferion da ymhlith ysgolion fodd bynnag teimlwyd y gallai hyn gael effaith andwyol ar yr ysgolion sy'n perfformio orau, gan y bydd yn rhaid iddynt ryddhau staff er mwyn darparu'r hyfforddiant yma.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

10 **Cynllun Datblygu Rhwydwaith Rhanbarthol (RDNP) 14-19**

Esboniodd y Cyfarwyddwr taw dyma oedd y fframwaith rhanbarthol ar gyfer cefnogi ystod o gyrsiau 14-19 sy'n ofynnol dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae'r meini prawf ar gyfer dyrannu'r grant yma, a weinyddir unwaith eto gan Gyngor Sir Penfro, yn cael ei hadolygu ac y mae'n aneglur hyd yma beth fydd yr effaith ar yr arian a ddyrannir i'r Cyngor yma. Gobeithir y diogelir y costau cludiant sy'n gysylltiedig â chefnogi'r gwaith o gyflynu'r ddarpariaeth o gyrsiau gan ysgolion uwchradd a cholegau fel y sefydlwyd gan Geredigion a Phowys .

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac aros am ddatblygiadau pellach.

11 **Ariannu Addysg 16+ o fis Ebrill 2014**

Nodwyd fod Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgymryd ag adolygiad o'r fethodoleg ar gyfer ariannu addysg ôl 16 ac er y disgwylir newyddion positif o ran cydnabod yr elfen wasgarog a darpariaeth addysg ddwyieithog, roedd yr oedi wrth dderbyn cyfarwyddyd terfynol yn achos o bryder.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac aros am hysbysiad ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar XXXXXXXXXXX 2013.

Cadeirydd